



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Enw:	<i>Aliya Iftikhar, Swyddog Polisi</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad ebost:	<i>Aliyaiftikhar@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma farn:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae ein haelodau'n cynnwys 20 o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth a gwaith ataliol sy'n achub ac yn newid bywydau mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc, dynion a bechgyn, pobl draws ac anneauaid, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Fel corff ymbarél, ein prif nod yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn dyfarnu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS [yma](#)).

Cyflwyniad

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r cyfarwyddyd ymarfer peilot drafft sydd â'r bwriad o weithredu darpariaethau Rhan 3 Deddf Cam-drin Domestig 2021¹, ac yn credu y dylai ehangu cwmpas Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPO) ganiatáu i fwy o ddiodefswyr gael eu hamddiffyn yn erbyn pob math o drais a cham-drin. Yn y flwyddyn yn diweddu 2022, yng Nghymru a

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/part/3>.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Lloegr caniatwyd tua 10,167 Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig (DVPO), tra bod 910,980 o adroddiadau am droseddau'n ymwneud â cham-drin domestig², sy'n awgrymu mai dim ond tua 1% o droseddau'n ymwneud â cham-drin domestig a arweiniodd at orchymyn amddiffyn. Mae Rights of Women wedi tynnu sylw at hyn gan ddweud ei fod yn debygol o fod yn ganlyniad i hyfforddiant gwael i'r heddlu a diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gorchymynion a'r broses ymgeisio³. Er y byddai'r Ddeddf yn diddymu'r Hysbysiadau Amddiffyn Trais Domestig (DVPN) cyfredol a'r DVPO, mae'n hanfodol fod y DAPO dan Ran 3⁴ y Ddeddf yn gweithio mewn polisi ac ymarfer i sicrhau bod y gorchymynion hyn yn cael eu deisyf a'u gweithredu, i sicrhau bod goroeswyr yn cael eu hamddiffyn rhag cyflawnwyr a'u bod yn gallu byw eu bywydau'n rhydd rhag ofn. Rhaid i'r cyfarwyddyd ymarfer fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall, i sicrhau bod yr holl unigolion a sefydliadau, ochr yn ochr â'r llysoedd, yn deall y weithdrefn ar gyfer ymgeisio am DAPO.

Ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd ymarfer peilot hwn, credwn fod rhaid cael ymrwymiad i sicrhau bod holl aelodau'r llys yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar drais yn erbyn menywod a merched yn ei holl ffurfiau, croestoriadedd a sut y bwriedir i'r DAPO weithio. Amlygodd adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat fod cam-drin yn cael ei anwybyddu'n systematig, nad yw'n cael ei gredu neu yn cael ei ddiystyrru, gyda phroses nad yw'n cael ei llywio gan drawma ac sydd hefyd yn hwyluso rheolaeth bellach gan y cyflawnwr⁵. Er mwyn sicrhau nad yw goroeswyr yn dioddef trawma pellach yn sgil proses y llys ac er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn arbenigwyr ar eu profiad eu hunain, ni ellir rhoi'r cyfarwyddyd ymarfer peilot drafft ar waith mewn seilo. Rhaid i'r holl lysoedd sicrhau bod cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o bob math o gam-drin domestig⁶ a'i effaith ar oroeswyr. Rhaid peidio ag achosi mwy o niwed i oroeswyr wrth iddynt geisio diogelwch rhag cael eu cam-drin. Credwn fod rhaid gweithredu argymhellion yr Adroddiad mewn perthynas â DAPO, sy'n nodi bod rhaid i egwyddorion dylunio sylfaenol llysoedd teulu fod yn seiliedig ar ddiwylliant o ddiogelwch a gwarchodaeth rhag niwed, ymagwedd sydd yn ymchwiliol ac sy'n datrys problemau gydag adnoddau digonol a dull mwy cydlynol⁷.

²<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/domesticabuseandthecriminaljusticesystemappendixtables>, cofnod Tachwedd 2022 o'r set data hwn.

³ <https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Briefing-on-Domestic-Abuse-Protection-Orders-14-June-2019.pdf>, tudalen 2.

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/part/3>

⁵ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf>, tudalen 4.

⁶ Deddf Cam-drin Domestig 2021, Rhan 1, Adran 1 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Adran 24.

⁷ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf>, tudalen 9.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

C1: Wrth ystyried y Cyfarwyddyd Ymarfer Peilot drafft yn ei gyfarwydd

- a. Ydy'r Cyfarwyddyd Ymarfer Peilot yn darparu manylion ac eglurder digonol?
- b. Oes unrhyw fylchau gweithdrefnol neu feysydd penodol a fyddai'n elwa o ehangu pellach? Rhowch wybodaeth benodol ar y meysydd hyn; ac
- c. A oes unrhyw anawsterau wrth ddehongli'r Cyfarwyddyd Ymarfer Peilot arfaethedig? Os felly, nodwch.

Wrth adolygu'r cyfarwyddyd ymarfer peilot, barn Cymorth i Ferched Cymru mewn ymgynghoriad â'n haelod-wasanaethau yw bod bylchau sylweddol a diffyg eglurder ar hyn o bryd. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw sôn am geisiadau brys a sut y gellir eu cael. Bwriad y Swyddfa Gartref yw 'dod ag elfennau cryfaf y Gorchmynion Amddiffyn presennol at ei gilydd'⁸, ond eto nid oes sôn am sut i wneud cais am y rhain mewn sefyllfaoedd brys lle mae amser yn hollbwysig na chwaith a fydd y rhain yn dod dan y DAPN, gyda DAPO i ddilyn. Os mai'r bwriad yw bod y DAPN yn rhoi amddiffyniad uniongyrchol yn dilyn digwyddiad, o fewn y cyfarwyddyd ymarfer peilot hwn credwn y dylid cael adran sy'n sôn am y DAPN a'i ddefnydd mewn sefyllfaoedd brys a sut y gellid ymgeisio amdano cyn y DAPO. Mae hyn hefyd yn codi'r cwestiwn a fydd y defnydd blaenorol o DAPN yn cyfrif am unrhyw beth wrth geisio sefydlu, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod y cyflawnwr wedi bod yn cam-drin y goroeswr.

Nid yw'n glir pryd caiff y llysoedd eu hysbysu am y newidiadau hyn o ran yr ardaloedd peilot ac a fydd ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd DAPO wrth ddarparu amddiffyniad tymor hir i oroeswyr. Mae aelod-wasanaethau wedi codi pryderon eu bod wedi bod mewn sefyllfaoedd lle nad oedd y llysoedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn y weithdrefn a'i bod yn hanfodol fod y cyfarwyddyd ymarfer peilot a gwybodaeth arall yn ymwneud â DAPOs yn cael eu rhannu gyda'r llysoedd teulu cyn dechrau'r peilot. Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn credu y byddai'n fuddiol cael rhestr o gysylltiadau hygyrch ar gyfer aelodau dynodedig o'r llysoedd teulu fel bod modd i wasanaethau arbenigol neu oroeswyr ddod o hyd i'r manylion cyswllt yn rhwydd os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ymholiadau.

Ni chafwyd unrhyw gyfeiriad at gyfraniad y gwasanaethau arbenigol sydd ag arbenigedd penodol o ran darparu cymorth ac eiriolaeth i oroeswyr pob math o gam-drin a thrais. Nid yw'n glir o'r cyfarwyddyd ymarfer peilot a fydd ymgynghori gyda'r gwasanaethau arbenigol, a allai fod yn cynorthwyo'r dioddefwr, wrth benderfynu a gaiff DAPO ei gyflwyno neu ar y gofynion sydd i'w gosod. Nid yw'n glir sut y byddai parthau eithrio'n cael eu pennu ac a fyddai unrhyw ymgynghori â'r goroeswr na'r sector arbenigol i gael eu cyfraniad. Mae'n sylfaenol bwysig nad yw llais y goroeswr yn cael ei gollu drwy gydol y broses o ymgeisio am DAPO, er mwyn sicrhau bod y paramedrau yn eu hamddiffyn. Cred Cymorth i Ferched Cymru ei bod yn hanfodol fod goroeswyr yn cael eu hystyried yn

⁸ <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/domestic-abuse-protection-notice-orders-factsheet>.





Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

arbenigwyr ar eu profiad eu hunain a bod arbenigedd y sector arbenigol mewn dynameg cam-drin, trais, risg a thrawma'n cael ei geisio. Er mwyn sicrhau bod DAPO yn cyflawni'r canlyniad cywir a bod y gofynion yn briodol, rhaid cael cydweithio rhwng yr holl sectorau sy'n ymwneud â'r goroeswr a'r cyflawnwr. Credwn hefyd fod rhaid i'r holl wasanaethau sy'n ymwneud â'r amrywiol bartïon fod yn ymwybodol o gydymffurfiaeth y cyflawnwr gyda'i DAPO a'i ofynion penodol a rhaid sefydlu trefn glir a chadarn ar gyfer hyn.

Wrth ymgynghori gyda'n haelod-wasanaethau, nodwyd bod y cyfarwyddyd ymarfer peilot yn gymhleth iawn i'w ddeall a'i fod wedi ysgrifennu fel pe bai wedi'i anelu at bobl â chefnidir yn y gyfraith. Mae hyn yn codi pryderon y bydd cymhlethdod y cyfarwyddyd ymarfer yn creu rhwystrau pellach, lle na fydd llawer o bobl yn deall y weithdrefn ac felly na fyddant yn ymgeisio am DAPO. Dan Adran 75 (5) Deddf y Llysoedd 2003, pwysleisir bod rhaid i reolau Trefniadaeth Teulu fod yn yn syml ac wedi'u mynegi'n rhwydd a bod modd gosod yr ymarfer a'r drefniadaeth yn y cyfarwyddyd ymarfer ei hun⁹. Nid yw'r cyfarwyddyd ymarfer peilot presennol yn glir nac yn hygyrch i'r rheini y bwriedir iddynt ei ddarllen, fel goroeswyr, a gwasanaethau arbenigol. Mae dioddefwyr a goroeswyr o gymunedau ar y cyrion eisoes yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth gyrchu cymorth, diogelwch a chyfiawnder¹⁰ ac mae cael cyfarwyddyd ymarfer aneglur a hynod o hir yn cynyddu'r rhwystrau hynny wrth iddynt fynd ati i wneud cais am DAPO. Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn a ofynnwyd, credwn y dylid ymgynghori'n ehangach â goroeswyr i sicrhau bod unrhyw ffurflenni a'r cyfarwyddyd ymarfer peilot yn hygyrch.

C2: Paragraff 3 – Hysbysiad o gais am DAPO

- a. Ydych chi'n cytuno gyda'r dull arfaethedig y dylai ceisiadau fod ar ffurflen gais gyda chefnogaeth datganiad gan dyst?**
- b. Ydych chi'n ystyried bod y wybodaeth ychwanegol a geisir dan baragraff 3.4 y cyfarwyddyd ymarfer yn briodol ac yn ddigon clir?**

Gan nad ydym wedi gweld y ffurflen gais, ni all Cymorth i Ferched Cymru gadarnhau a ydym ni'n cytuno gyda'r dull arfaethedig o gael ffurflen gais a datganiad gan dyst. Gallai fod llawer o sefyllfaoedd lle bydd goroeswr neu wasanaeth arbenigol yn gwneud cais am DAPO, ac mae'n aneglur pa mor ymwithiol a hirfaith yw'r ffurflen gais. Mae gwasanaethau arbenigol yn gweithio dros eu capasiti oherwydd ffactorau fel cyllido tymor byr, blynyddoedd o lymder, yr argyfwng costau byw a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ers pandemig Covid-19. Mae ein haelod-wasanaethau wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch faint o amser y bydd rhaid iddynt dreulio ar gwblhau'r ffurflen, sy'n amser i ffwrdd o ddarparu cymorth rheng flaen. Nid yw'n glir pa mor hygyrch yw'r ffurflen nac i ba raddau y mae hi wedi'i llywio gan drawma, nac a oes unrhyw gydnabyddiaeth y bydd goroeswyr

⁹ Deddf y Llysoedd 2003, Adran 76.

¹⁰ Listen to us! (endviolenceagainstwomen.org.uk), tudalen 2.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

mewn rhai achosion yn ei chwblhau eu hunain, heb unrhyw gymorth. Mae'n aneglur hefyd a roddwyd unrhyw ystyriaeth wrth ysgrifennu'r ffurflen i'r ffaith ei bod yn bosibl nad oes cyfieithiad uniongyrchol ar gyfer rhai termau'n ymwneud â thrais a cham-drin yn erbyn menywod a merched mewn ieithoedd fel Arabeg neu BSL. Credwn ei bod yn hanfodol fod cyd-destun a chynnwys y ffurflen yn cael eu hystyried ac y ceir ymgynghori gyda goroeswyr a gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn, yn y ffordd iawn, i bennu pam fod cais am DAPO yn cael ei wneud. Rhaid cael pwyslais ar sicrhau bod y ffurflen yn hylaw ac mor gryno â phosibl, i sicrhau nad yw'r ffurflen gais yn rhwystr i oroeswyr sydd am ei chwblhau ar eu pen eu hunain, os nad oes ganddynt gymorth gwasanaethau arbenigol neu unrhyw asiantaethau eraill.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu y gallai llais y goroeswr fynd ar goll os nad nhw fydd yn ymgeisio am y DAPO ac mae'n hanfodol fod y goroeswr yn parhau'n ganolog yn y cais ac yng ngweithrediad y DAPO. Gall sefydliad neu unigolyn (nid y person sy'n cael ei ddiogelu) wneud cais am DAPO os yw'r llys wedi rhoi caniatâd iddynt. Deallir y byddai'r person/sefydliad hwn yn darparu datganiad tyst yn egluro pam eu bod yn gwneud cais am DAPO yn erbyn cyflawnwr. Mae'r cyfarwyddyd ymarfer peilot yn nodi dan 3.4 (b) bod rhaid darparu barn yr unigolyn sy'n cael ei ddiogelu. Wrth ymgynghori gyda'n haelod-sefydliadau, codwyd pryderon gan dynnu sylw at enghreifftiau blaenorol lle na chafodd datganiad effaith y dioddefwr ei gwblhau ac felly ni chafodd ei gyflwyno yn y llys. Nid yw'n glir o adran 3 y cyfarwyddyd ymarfer peilot sut y byddai'r llys yn sicrhau bod llais goroeswyr yn cael ei glywed a'u bod yn cael eu hystyried yn arbenigwr ar eu profiad eu hunain.

Credwn fod y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen dan baragraff 3.4 ar y cyfan yn briodol a chlr, ond fel y trafodwyd uchod credwn fod rhaid gwneud mwy neu egluro bod llais y goroeswr yn ganolog yn y cais am DAPO a'i weithrediad.

C3: Paragraff 5 – Caniatâd i wneud cais am DAPO

- a. Ydych chi'n cytuno bod y weithdrefn fel y'i nodir yn ddigon clir?**
- b. Ydych chi'n cytuno gyda'r dull arfaethedig y dylid cyflwyno ceisiadau am ganiatâd ar ffurflen bwrpasol yn hytrach na defnyddio gweithdrefn FPR Rhan 18?**

Nid yw'n glir ym mha amgylchiadau y byddai'r llys yn gallu caniatáu'r cais yn hytrach na gosod dyddiad ar gyfer gwrandawriad y cais, ac mae hyn yn rhywbeth sydd angen ei egluro. Y ffrâm amser yw y byddai angen i'r llys wneud (a) neu (b) "cyn gynted ag y bo'n ymarferol", fodd bynnag nid yw hyn yn benodol a gall fod yn agored i'r llys ddehongli'r hyn y mae'n ei bennu sy'n ymarferol, a allai fod yn wahanol i'r hyn y mae'r gwasanaethau arbenigol neu oroeswr yn ei bennu'n ymarferol. Credwn fod rhaid cael ffrâm amser rhagnodol er mwyn i sefydliad neu unigolyn sy'n cyflwyno cais ar

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

ran y goroeswr sicrhau bod y goroeswr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae cyflwyno cais am DAPO, boed gan y goroeswr ei hun neu drwy sefydliad, yn debygol o achosi anesmwythyd i oroeswr oherwydd proses y llys, ac mae pennu ffrâm amser sy'n agored i ddisgresiwn yn ychwanegu at hyn.

O ran ceisio caniatâd i wneud cais am DAPO, dan adran 28(2)(d) y Ddeddf Cam-drin Domestig, caiff unrhyw un geisio caniatâd y llys. Ceir pryderon y gellid cam-drin y ddarpariaeth hon gydag aelodau o'r teulu a thrydydd partion anhysbys yn gallu ymgeisio amdanynt¹¹. Yn adroddiad y Cydbwyllgor ar y Bil Cam-drin Domestig Drafft¹², nodwyd oherwydd bod y ceisiadau yn dibynnu ar ddisgresiwn y llys, y byddai hyn yn osgoi achosion o gam-drin¹³. Nid yw'n glir o'r weithdrefn hon sut y pennir y byddai unigolyn neu sefydliad trydydd parti'n cael caniatâd i wneud cais am DAPO ac a fyddai eu rheswm dros gyflwyno cais ar ran y goroeswr yn ddilys.

Credwn fod y dull a awgrymir o ymgeisio am ganiatâd ar ffurflen bwrpasol, fel y nodwyd yn flaenorol, yn dibynnu ar hyd y ffurflen a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i sefydliadau fel gwasanaethau arbenigol ei chwblhau. Nid ydym yn gallu nodi'n llawn a ydym ni'n cytuno â'r dull a awgrymir heb gael golwg ar y ffurflen bwrpasol.

C4: Paragraff 6 – Cais am DAPO mewn achos sydd eisoes yn bodoli

a. Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio ffurflen ar wahân?

Credwn fod y dull a awgrymir ar gyfer gwneud cais am DAPO mewn achos sydd eisoes yn bodoli ar ffurflen ar wahân yn dibynnu ar hyd y ffurflen a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i sefydliadau fel gwasanaethau arbenigol ei chwblhau. Nid ydym yn gallu nodi'n llawn a ydym ni'n cytuno â'r dull a awgrymir heb gael golwg ar y ffurflen benodol.

C5: Paragraff 7 – Partïon

- a. Ydych chi'n credu bod buddiannau'r dioddefwyr hynny'n cael eu diogelu'n ddigonol gan y weithdrefn arfaethedig?**
- b. Ydych chi'n credu bod darpariaethau FPR Rhan 16 a Chyfarwyddyd Ymarfer 16A sy'n ymwneud â phenodi cyfaill cyfreitha'n darparu'n ddigonol ar gyfer penodiadau o'r fath, gan ystyried na phenodir gwarcheidwad plant yn benodol at y dibenion hyn?**

¹¹ <https://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/draft-domestic-abuse-bill-committee/draft-domestic-abuse-bill/oral/99005.html>, Q38.

¹² <https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtddab/2075/2075.pdf>, tudalen 26.





Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Credwn nad yw paragraff 7 yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod y plentyn sydd dan 18 ond yn 16 neu'n hŷn yn cael cefnogaeth os caiff ei wneud yn barti i'r achos. Dan adran 3 Deddf Cam-drin Domestig 2021, caiff plant bellach eu cydnabod yn ddiodefwr cam-drin domestig yn eu hawl eu hunain. Mae hyn yn wir p'un a ydynt wedi gweld, clywed neu ddiodef cam-drin a/neu drais ai peidio. Mae pryderon wedi'u mynegi nad yw plant yn aml yn cael eu clywed yn y llysoedd teulu¹⁴, bod diffyg dealltwriaeth o'r dylanwadau gwahanol ar blant megis y cyflawnwr, a bod y llysoedd teulu yn aml yn ennyn trawma¹⁵. Os yw plentyn yn barti yn yr achos nid yw'n glir a fydd unrhyw ofyniad bod y llys yn sicrhau eu bod yn derbyn cymorth wedi'i lywio gan drawma, yn seiliedig ar gryfderau a'i arwain gan anghenion fel bo angen. Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n ddigonol, rhaid cael newid systematig yn y ffordd mae'r llysoedd yn gweithio gyda goroeswyr. Fel yr amlygwyd gan Ffederasiwn Women's Aid England yn 2022¹⁶, cafwyd oedi wrth roi argymhellion Panel Harm ar waith¹⁷, sy'n golygu bod goroeswyr cam-drin domestig yn dal i gael profiad trawmatig y llys a diffyg dealltwriaeth systematig. Er ein bod yn cydnabod bod paragraff 7, ochr yn ochr â Rhan 16 FPR a Chyfarwyddyd Ymarfer 16A, yn sicrhau bod plant yn barti i achos mewn amgylchiadau penodol yn unig ac y penodir cyfaiill cyfreitha iddynt, ni all y rhan hon fod ar wahân. Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n ddigonol, mae angen gweithredu'r argymhellion yn dilyn methiannau system y llysoedd fel yr amlygwyd yn Adroddiad Harm, a'u monitro i sicrhau bod yr holl oroeswyr yn gallu bod yn ddiogel mewn modd nad yw'n achosi niwed pellach.

C6: Paragraffau 8 – 10 ar wasanaethu cais DAPO a pharagraffau 17 – 19 ar wasanaethu DAPO

- a. **Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?**
- b. **Oes unrhyw beth arall y byddai darpariaethau gwasanaeth yn elwa ohono?**
- c. **Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gynnwys gwasanaeth ar ddeiliad morgais neu landlord, sy'n seiliedig yn fras ar ddarpariaethau FPR Rhan 10 yn ymwneud â Gorchmynion Meddiannaeth, o ystyried bod DAPOs yn gallu cynnwys gofynion yn gysylltiedig ag eiddo?**

Ydym, rydym ni'n cytuno'n gyffredinol gyda'r ymagwedd hon ac fel y soniwyd eisoes, rydym ni'n credu y byddai rhestr o gysylltiadau gweithwyr llysoedd teulu dynodedig yn fuddiol i sicrhau y byddai'n hawdd i oroeswyr neu wasanaethau arbenigol gysylltu â rhywun gydag unrhyw ymholiadau.

¹⁴ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf>.

¹⁵ <https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/Two-Years-Too-Long-2022.pdf>, Tudalen 52.

¹⁶ <https://www.womensaid.org.uk/the-harm-report-two-years-on-too-little-too-late/>

¹⁷ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf>.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

C7: Paragraff 11 – Gwrandawiadau

a. Ydych chi'n cytuno gyda'r ymagwedd arfaethedig?

Rydym ni'n cytuno gyda'r ymagwedd hon mewn egwyddor; fodd bynnag, credwn fod rhaid bod yn glir a yw'r gwrandawiadau hyn yn debygol o fod yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. Yn aml nid yw llysoedd yn darparu ar gyfer menywod i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, ac yn aml maent yn methu defnyddio ystafell aros ar wahân, a gall hyn gael effaith sylweddol ar y ffordd y maent yn cyflwyno yn y llys¹⁸. Gall daearyddiaeth a gwasanaethau trafndiaeth yng Nghymru fod yn rhwystrau enfawr i rai menywod rhag cyrraedd y llysoedd, gan eu bod yn byw mewn ardaloedd gwledig a'r pellter sydd angen ei deithio, ac efallai nad oes gan oroeswyr ddefnydd o gar neu ddigon o arian i dalu am drafndiaeth gyhoeddus. Mae'n hanfodol fod y rhwystrau hyn at fynychu'r llys yn bersonol yn cael eu hystyried, i sicrhau nad yw goroeswyr yn cael eu digalonni ac yn peidio ymgeisio am DAPO am eu bod yn ofni gweld y cyflawnwr yn y llys neu oherwydd anawsterau ariannol. Rhaid ystyried ffactorau eraill megis anghenion gofalu, hygyrchedd i bobl anabl, ac argaeledd cyfieithwyr.

C8: Paragraff 14 – Cynnwys gofyniad cadarnhaol mewn DAPO

a. Oes gennych chi sylwadau ar y darpariaethau hyn?

b. Ydych chi'n meddwl bod angen cynnwys unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r modd y mae'r llys yn cyfathrebu â'r darparwyr rhaglen a llif gwybodaeth rhwng y ddau?

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu am y diffyg gwybodaeth a ddarperir am sut y gwneir y penderfyniad ar y math o ofyniad i'w osod. Nid yw'n glir a fyddai unrhyw ymgynghori gyda gwasanaethau arbenigol sy'n arbenigwyr ar ddarparu cymorth ac eiriolaeth i oroeswyr, y goroeswyr eu hunain, ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r goroeswr a/neu'r cyflawnwr. Bwriedir y bydd DAPOs yn sicrhau amddiffyniad tymor hirach i oroeswyr pob math o gam-drin domestig¹⁹, fodd bynnag mae'n aneglur sut y penderfynir pa fath o ofyniad cadarnhaol a fyddai'n cael ei ddefnyddio, y byddai tystiolaeth wedyn yn cael ei chasglu ar ei gyfer. Mae'n aneglur hefyd a fyddai modd gwneud cais am dystiolaeth ar opsiynau niferus. Os caniateir gofyniad cadarnhaol nad yw'n addas i'r cyflawnwr, gallai hyn gynyddu'r risg o gam-drin pellach, felly mae'n bwysig fod eu haddasrwydd yn cael ei asesu'n gywir gyda'r rheini sydd â gwybodaeth am y cyflawnwr yn rhan o'r trafod.

¹⁸ <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Westminster-debate-Domestic-abuse-victims-in-family-law-courts.pdf>, tudalen 5.

¹⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/domestic-abuse-protection-notice-orders-factsheet>.





Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Er ein bod yn cydnabod bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio i ddatblygu proses fwy manwl ar gyfer y ffordd y caiff atgyfeiriadau eu rheoli ac arweiniad ar fframwaith adrodd ar gyfer darparwyr rhaglen, mae diffyg unrhyw esboniad ym Mharagraff 14 ar sut y penderfynir ar y gofyniad arfaethedig yn y lle cyntaf. Dywed Paragraff 14.2(b) fod rhaid i'r llys dderbyn tystiolaeth am addasrwydd ac ymarferoldeb gorfodi'r gofyniad arfaethedig, ac os nad oes gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu, y caiff DAPO interim ei wneud gyda'r gofyniadau'n cael eu hychwanegu unwaith y bydd y dystiolaeth wedi dod i law. Dywed y cyfarwyddyd ymarfer peilot y gall y llys weithredu DAPO pan fydd yn fodlon bod yr amodau wedi'u bodloni ac os oes angen cynnwys gofyniad ar i'r cyflawnwr "wneud rhywbeth". Dywed Adran 35(2) y Ddeddf Cam-drin Domestig fod rhaid i'r llys ystyried pa ofynion a allai fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r person rhag gwahanol fathau o ymddygiad camdriniol. Mae hyn yn awgrymu y caiff pob DAPO ei wneud yn y lle cyntaf heb y gofyniad, gan y byddai angen i'r llys yn gyntaf benderfynu pa ofynion fyddai'n angenrheidiol ac yn ail, rhaid sicrhau'r dystiolaeth gan bwy bynnag fyddai'r person cyfrifol. Nid yw'r cyfarwyddyd ymarfer peilot yn ei gwneud yn glir y gall y ddau ddigwydd mewn un eisteddiad llys, a fyddai'n sicrhau na fyddai oedi wrth weithredu'r DAPO a'r gofyniad cadarnhaol.

Dywed y cyfarwyddyd ymarfer peilot hefyd fod rhaid i'r llys bennu'r cyfnod y mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth i'r llys oddi mewn iddo, ond nid yw'n glir beth fyddai'r ffrâm amser hwn. Credwn fod rhaid cael amser penodedig ar gyfer cyflwyno'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani i'r llys. Byddai hyn yn lleihau'r cyfnod rhwng DAPO interim ac ychwanegu'r gofynion. Credwn fod rhaid cael cyswllt ebost arweiniol dynodedig yn y llys ac yn y gwahanol sefydliadau/gwasanaethau lle mae'r person cyfrifol wedi'i leoli. Bydd hyn yn sicrhau blwch post canolog, er mwyn gofalu na chaiff unrhyw dystiolaeth ei hanwybyddu a sicrhau y bydd yr ymatebion yn cael eu derbyn. Bydd hefyd yn caniatáu cael unigolyn dynodedig i gysylltu os oes unrhyw bryderon, cwestiynau, neu os oes angen mynd ar ôl tystiolaeth. Nid yw'n glir chwaith o fewn pa ffrâm amser penodol y mae'n rhaid i swyddfa'r llys sicrhau bod y person cyfrifol yn ymwybodol o fanylion a gofynion y cyflawnwr. Rhaid darparu'r ffrâm amser hwn i sicrhau os oes unrhyw oedi cyn bod y person cyfrifol dderbyn y wybodaeth, nad yw hynny'n arwain at oedi pellach wrth ddechrau'r gofyniad cadarnhaol.

O ran hygyrchedd y gofynion cadarnhaol, ochr yn ochr â'n haelodau mae gan Cymorth i Ferched Cymru bryderon am hygyrchedd a'r galw am y gwasanaethau hyn. Yn aml caiff y gwasanaethau megis y rhai sy'n ymwneud â cham-drin sylweddau a rhaglenni newid ymddygiad eu comisiynu o awdurdod lleol i awdurdod lleol ac nid ydynt ar gael yn gyson yn lleol nac yn genedlaethol. Nid yw'n glir beth sy'n digwydd os bydd gan ofyniad cadarnhaol y pennwyd bod ei angen gan y llys restr aros helaeth neu os nad yw'n cael ei gomisiynu yn yr ardal ble mae'r cyflawnwr yn byw. Mae hyn yn codi pryderon efallai na chaiff y gofyniad cadarnhaol ei roi ar waith ar unwaith neu na chaiff ei roi ar waith o gwbl oherwydd rhwystrau o ran natur wledig y lleoliad neu ddiffyg darpariaeth gwasanaeth. Nid yw'n glir pa drefniadau sydd ar waith i atal hyn, neu i reoli unrhyw restrau aros.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

C9: Paragraff 15 – Gofynion monitro electronig

a. O ystyried bod monitro electronig yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn y llysoedd teulu, oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y darpariaethau hyn?

Mae ein sylwadau ar Baragraff 15 yn cyd-fynd yn agos â'r sylwadau a wnaed uchod. Nid yw'n glir sut y caiff penderfyniadau'n ymwneud ag amser cyrffiw a pharthau eithrio eu gwneud, ac a gaiff y rhain eu gwneud mewn ymgynghoriad â'r goroeswr, gwasanaethau arbenigol neu asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r goroeswr a'r cyflawnwr. Rydym ni'n credu bod angen egluro rhagor ar y manylion cyfyngedig yn ymwneud â phryd y pennir bod gofyniad monitro electronig yn angenrheidiol a pha bartion fydd yn ymwneud â threfnu amseroedd ac ardal y cyrffiw. Os na ymgynghorir â goroeswyr yn ystod y broses hon, ceir risg sylweddol na fyddant yn cael eu diogelu rhag cam-drin pellach ac na fydd y DAPO yn cyflawni ei nodau sef darparu diogelwch tymor hirach rhag pob math o gam-drin domestig. Credwn fod rhaid cael trefniant i sicrhau bod barn ac anghenion y dioddefwr yn cael eu hystyried wrth roi'r gofynion cadarnhaol ar waith gan fod llawer o oroeswyr yn aml heb gynrychiolaeth mewn achosion sifil²⁰. Hefyd ceir pryderon y gallai goroeswyr fod ag ymdeimlad ffug o gael eu gwarchod os rhoddir gofyniad monitro electronig i'r cyflawnwr heb fod y seilwaith iawn yna i'w orfodi²¹. Er mwyn sicrhau bod y tag monitro electronig yn sicrhau diogelwch y goroeswr ac yn atal unrhyw gam-drin domestig pellach, rhaid clywed eu llais yn y broses hon. Mae hefyd yn aneglur pa mor gyflym y byddai darparwr y tag monitro electronig yn hysbysu'r heddlu am unrhyw doriad ac a fyddai oedi wrth adrodd hyn. Credwn fod monitro ac adrodd am unrhyw doriadau gan y rheini sydd â thag monitro electronig yn hanfodol i gael gwybodaeth gywir, a sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddiben. Rhaid i'r rheini sy'n monitro'r gofyniad sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i wneud yn siŵr fod yr holl doriadau'n cael eu hymchwilio a rhaid i'r system monitro electronig fod yn addas i'r diben, gan fod offer yn aml yn ddiffygiol neu ddim yn gweithio'n ddigon da²². Fe wyddom fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu datblygu canllawiau a gweithdrefnau manylach ar gyfer staff y llys, yr heddlu a'r rheini sy'n monitro tagio electronig, a chredwn fod rhaid i'r canllawiau hyn fod yn gadarn i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Rhaid cael trefn glir i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol sy'n ymwneud â'r goroeswr a'r cyflawnwr yn gwybod am gydymffurfiaeth y cyflawnwr gyda'u DAPO a'u bod yn cael eu hysbysu am unrhyw doriad cyn gynted â phosibl.

²⁰ <https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Briefing-on-Domestic-Abuse-Protection-Orders-14-June-2019.pdf>, tudalen 4.

²¹ <https://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/draft-domestic-abuse-bill-committee/draft-domestic-abuse-bill/written/101083.html>, 3.3.

²² <https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtddab/2075/2075.pdf>, tudalen 28.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Gan fod gofynion monitro electronig yn gallu cael eu rhoi ar waith am 12 mis yn unig ar y tro²³, nid yw'n glir o baragraff 15 pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y gellir eu hailgyflwyno ar ôl 12 mis os pennir bod hynny'n angenrheidiol.

C10: Paragraffau 20 a 21 – Hysbysu'r heddlu

a. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y darpariaethau hyn yn benodol?

Credwn fod rhaid i'r drefn a ddefnyddir i hysbysu'r heddlu am gyflwyno DAPO fod yn gadarn heb unrhyw le i wneud camgymeriadau. Rydym yn cytuno y dylai'r cyfrifoldeb symud oddi wrth y ceisydd neu eu cyfreithiwr i'r llys, i sicrhau bod yr hysbysiad yn cael ei wneud. Rhaid monitro'r system i sicrhau bod y llys yn cyflawni ei ymrwymiad i gyflwyno'r hysbysiad o fewn 1 diwrnod, a bod yr heddlu'n sicrhau bod y cyfeiriad ebost yn cael ei gynnal yn ddigonol.

C11: Paragraff 22 – Amrywio neu ollwng DAPO

a. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y weithdrefn arfaethedig?

Fel yr amlygwyd yn y cyfarwyddyd ymarfer peilot, mae'r "person cyfrifol" yn unigolyn sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gyda gofyniad cadarnhaol neu ofyniad monitro electronig. Bydd yn ymwybodol o doriadau a pha mor dda mae'r cyflawnwr yn ymgysylltu ag unrhyw ofynion a osodir. Dan baragraff 22 nid yw'r person cyfrifol wedi'i restru fel rhywun sy'n gallu amrywio DAPO. Nid yw'n glir o'r cyfarwyddyd ymarfer peilot gyda phwy y byddai'r person cyfrifol yn ymgynghori pe bai rheswm pam fod angen amrywio'r DAPO, er enghraifft efallai nad yw'r gofynion a osodwyd bellach yn addas ar gyfer y cyflawnwr. Credwn ei fod yn bwysig fod y person cyfrifol yn gallu darparu adborth ar gynnydd y cyflawnwr yn yr amgylchiad penodol hwn, ond yn fwy eang i'r sefydliadau/asiantaethau eraill hynny sy'n ymwneud â'r goroeswr a'r cyflawnwr.

Dywed paragraff 22 hefyd y gellir gwneud cais i amrywio neu ollwng gan y cyflawnwr. Mae aelod-wasanaethau wedi nodi ei bod yn aneglur a oes unrhyw bamedrau neu gyfyngiadau ar y mathau a'r nifer o amrywiadau a geisir. Ceir pryderon y gallai'r cyflawnwr droi'r cais hwn am amrywio DAPO yn arf a'i ddefnyddio fel modd i reoli. Amlygwyd hefyd nad yw'n glir a oedd modd sicrhau gorchymyn Bar yn yr amgylchiadau hyn i atal y cyflawnwr rhag dod â'r goroeswr yn ôl i'r llys. Rhaid i'r llys fod yn

²³ Deddf Cam-drin Domestig 2021, Adran 38, 172, isadran 3.





Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

ymwybodol a rhaid bod trefniant ar waith i sicrhau nad yw cyflawnwyr yn gallu creu arf allan o'r llys a pharhau i gam-drin y goroeswr ar ôl gwahanu.

Fel yr amlygwyd drwy gydol ein hymateb, rhaid i lais y goroeswr barhau yn ganolog, ac nid yw'n glir o baragraff 22 a fyddai unrhyw ymgynghori â nhw ar eu barn am yr amrywiad neu ollwng y DAPO. Gallai unrhyw amrywiad neu ollyngiad gael effaith sylweddol ar eu diogelwch, felly credwn fod rhaid cael gofyniad i sicrhau eu barn ar bob amrywiad neu ollyngiad.

C12: Adran X - Gorfodi (paragraffau 23 i 29)

a. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y darpariaethau hyn, gan gynnwys sut y maent yn gweithredu ar hyn o bryd yn ymarferol?

Fel uchod, ni chrybwyllir y person cyfrifol mewn unrhyw rai o'r paragraffau yn ymwneud â gorfodi, ac nid yw'n glir pa drefniadau y byddent yn eu dilyn pe bai angen hysbysu am doriad a allai arwain at warant i'w harestio. Yn fwy cyffredinol o ran toriadau, mae'r broses hefyd yn aneglur ynghylch gwybodaeth gan drydydd parti/sefydliad a allai fod yn doriad. Er enghraifft, yn aml ceir sefyllfaoedd lle mae gwasanaethau arbenigol yn ymwybodol fod cyflawnwr a goroeswr yn cysylltu â'i gilydd unwaith eto, ond efallai na fyddai hyn yn tynnu sylw'r tîm monitro electronig gan nad yw'n ardal eithriedig. Nid yw'n glir pwy y byddai'r gwasanaethau arbenigol yn eu hysbysu am y wybodaeth hon, oherwydd bwriedir bod y DAPO yn atal y cyflawnwr rhag bod yn gamdriniol at y goroeswr²⁴.

Er mwyn sicrhau bod DAPO yn gweithio'n ymarferol, credwn fod rhaid cael trefniadau ar waith i atal dulliau anghyson rhwng y cais a'r gorfodi gan y llysoedd sifil a throseddol, gan fod y ddau'n gallu gosod DAPO. Credwn fod rhaid cael arweiniad a monitro manwl cadarn i sicrhau bod y system llysoedd troseddol a'r system llysoedd sifil yn cyd-fynd er mwyn osgoi creu system dwy haen yn ddamweiniol ar gyfer ceisio am DAPO. Rhaid sicrhau cymesuredd cyfiawnder, ochr yn ochr â sicrhau bod gorfodi DAPO gan y llysoedd sifil yn cyd-fynd â chanllawiau dedfrydu'r llysoedd troseddol.

²⁴ Deddf Cam-drin Domestig, Adran 27 (1).

